Home Office

Interpersonal Abuse Unit
Marsham Street
London
SW1P 4DF

Ffôn: 020 7035 4848 2
www.homeoffice.gov.uk

[redacted]
Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Caernarfon
LL55 1SH

8 Tachwedd 2022

Annwyl [redacted]

Diolch am gyflwyno adroddiad Adolygiad Lladdiad Domestig (DHR) (Barbara) Partneriaeth Diogelwch Cymunedol (CSP) Gwynedd i Banel Sicrwydd Ansawdd (QA) y Swyddfa Gartref. Ystyriwyd yr adroddiad yng nghyfarfod y Panel QA ar 26 Hydref. Ymddiheuraf am yr oedi cyn ymateb i chi.

Roedd y Panel QA yn teimlo bod cynnwys Caroline, merch Barbara a George, wedi bod yn gymorth o ran cael dealltwriaeth o'u profiadau a'u cyswllt â gwasanaethau.

Roedd cynnwys gwaith ymchwil sy'n tynnu sylw at y materion penodol sy'n wynebu dioddefwyr hŷn a dioddefwyr gwrywaidd yn ddefnyddiol o ystyried y ffaith bod George yn nodi ei fod wedi gweithredu i amddiffyn ei hun a'i fod wedi bod yn dioddef trais domestig ers blynyddoedd. Mae hyn yn wybodaeth ddefnyddiol, yn enwedig ar gyfer y rhai sydd â dealltwriaeth gyfyngedig am drais domestig.

Roedd y Panel QA yn teimlo y gallai rhai agweddau o'r adroddiad elwa o ddiwygio pellach, ond mae'r Swyddfa Gartref yn fodlon y bydd modd cyhoeddi'r DHR, unwaith y bydd y newidiadau hynny wedi'u gwneud. **Meysydd i'w datblygu'n derfynol:**

- Roedd Barbara wedi datgelu i weithwyr proffesiynol meddygol ei bod wedi bod yn fygythiol ac yn dreisgar tuag at George; nid oes tystiolaeth o unrhyw gamau dilynol a gymerwyd gan y bobl broffesiynol y datgelwyd y wybodaeth iddynt. Dylai'r argymhellion ynghylch hyfforddiant i staff meddygol gynnwys rhannau penodol am drais domestig a phobl hŷn.

- Gallai'r panel fod wedi elwa o gael cynrychiolaeth o sefydliad megis Age UK.

- Mae angen rhagor o wybodaeth am ymwneud y teulu. Er enghraifft, nid oes cyfeiriad at p'un ai nhw â ddewisodd y ffugenwau a ddefnyddioch, p'un a fu i Caroline gyfarfod â'r panel llawn neu'r Cadeirydd (mae'n nodi bod rhywun wedi cyfarfod â hi, ond nid pwy yn benodol), p'un a oedd ganddi unrhyw sylwadau am y drafft, p'un a gafodd gyfle i roi adborth ar y Cylch Gorchwyl, ac ati. Hefyd, nid oes unrhyw wybodaeth am sut y cysylltwyd â chwaer Barbara, a p'un a gafodd wybodaeth am eiriolaeth ac ati. Yn ogystal, nid oedd llawer o wybodaeth am sut y cysylltwyd â George.

- Er bod y cwpl wedi treulio'r rhan fwyaf o'u bywyd priodasol yng Nghanolbarth Lloegr, roedd yr adolygiad yn canolbwyntio llawer ar eu bywydau yng Nghymru, oedd yn ffracsiwn o'r hyn a dreuliodd y ddau yng Nghanolbarth Lloegr. Nid yw'r rhesymau am hyn yn cael eu gwneud yn glir yn yr adroddiad. Mae'n rhoi'r argraff efallai bod cyfle wedi'i golli i gael darlun llawnach o'u bywydau gyda'i gilydd.

- Gan ystyried y canfuwyd bod George yn ddioddefwr o drais Barbara, byddai'n ddefnyddiol egluro yn 1.11.9 p'un a yw hyn yn cyfeirio at ddioddefwr y lladdiad. Yn yr un modd, byddai'n ddefnyddiol cael gwybod y wybodaeth ychwanegol am y lladdiad, a nodir yn 4.2.27, yn gynharach.

- Nid yw capasiti meddyliol a chapasiti i gydsynio Barbara a George yn cael sylw/ei ddadansoddi mewn unrhyw fanylder yn yr adroddiad.

- Nid yw'n ymddangos bod galluedd gwybyddol dirywiedig Barbara, ei dryswch, colli cof, a'i phroblemau gydag arian wedi cael eu trosglwyddo ymlaen gan ei Meddygfa yn y West Midlands i'w gwasanaeth Meddyg Teulu newydd yng Nghymru, er iddi gofrestru yn gymharol brydlon ar ôl symud i Gymru - mae'n bosib bod hwn wedi bod yn gyfle wedi'i golli i Barbara a George.

- Yn ei Datganiad Effaith Dioddefwr, dywedodd Caroline bod ei theulu yn deulu mewn argyfwng, oedd yn gweiddi am help. Ni all y Panel QA weld sut y bydd yr argymhellion yn sicrhau y bydd teulu'n cael y gefnogaeth honno yn y dyfodol. Mae cyfeiriad at lle y gall teuluoedd chwilio am help i gefnogi eu hanwyliaid, ond nid i gefnogi eu hunain.

- Mae'r adolygiad yn codi'r mater o bobl broffesiynol yn clywed gwybodaeth sy'n gwrth-ddweud a gwybod pwy i'w gredu. Byddai'n help pe byddai argymhelliad penodol mewn perthynas â hyn.

- Roedd Barbara wedi datgelu i weithwyr proffesiynol meddygol ei bod wedi bod yn fygythiol ac yn dreisgar tuag at George; nid oes tystiolaeth o unrhyw gamau dilynol a gymerwyd gan y bobl broffesiynol y datgelwyd y wybodaeth iddynt. Dylai'r argymhellion ynghylch hyfforddiant i staff meddygol gynnwys rhannau penodol am drais domestig a phobl hŷn.

- Mae'r argymhellion yn cynnwys nifer y gellid eu hystyried yn fusnes yn ôl yr arfer, gan eu bod yn seiliedig ar ddiweddaru hyfforddiant a sicrhau dealltwriaeth o'r cyd-destun deddfwriaethol yng Nghymru. Mae'r cynllun gweithredu dilynol yn yr un modd yn canolbwyntio ar fewnbynnau - hyfforddiant, codi ymwybyddiaeth, negeseuon i'r cyhoedd a chyfnewid gwybodaeth. Nid yw'r argymhellion na'r cynllun gweithredu yn cyrraedd gwraidd y mater hwn - bod perthynas y cwpl, oedd yn mynd yn ôl 53 o flynyddoedd, wedi bod yn un lle'r oedd George wedi bod yn dioddef trais domestig, gyda Barbara yn ymddwyn mewn modd rheolgar a threisgar tuag ato, a allai fod yn gysylltiedig â materion iechyd meddwl lle nad oedd diagnosis wedi cael ei wneud yn eu cylch.
  Bu methiant i ddeall cymhlethdod y berthynas neu ddeall bod Barbara yn cyflawni trais, er bod enghraifft lle y bu iddi gyfaddef bod ganddi gyllell yn ei meddiant o amgylch George. Dylai'r argymhellion ystyried sut y gall rhai sydd ynghlwm â gofalu am gyplau hŷn dystiolaethu eu dealltwriaeth o gymhlethdod trais domestig mewn cyplau hŷn, gan gynnwys y ffaith y gallai'r dynion mewn unrhyw bartneriaeth fod yn ddioddefwyr. Er bod mynd i sesiynau cinio a dysgu yn werthfawr i gyfrannu gwybodaeth, nid yw'n dystiolaeth o'r newid mewn polisi ac ymarfer sydd ei angen i osgoi unrhyw ddiffyg ymwybyddiaeth o'r fath yn y dyfodol.

- Mae peth gwybodaeth ailadroddus wedi cael ei ddileu, er bod elfen ohono yn dal yno.

Unwaith y bydd hyn wedi'i gwblhau, byddai'r Swyddfa Gartref yn ddiolchgar pe bai modd i chi ddarparu copi digidol o fersiwn derfynol ddiwygiedig yr adroddiad i ni, gyda'r holl ddogfennau atodol ac atodiadau terfynol, ynghyd â'r ddolen gwe i'r safle lle bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi. Sicrhewch fod y llythyr hwn yn cael ei gyhoeddi ar y cyd â'r adroddiad os gwelwch yn dda.

Anfonwch y copi digidol a'r ddolen i DHREnquiries@homeoffice.gov.uk. Mae hyn ar gyfer ein cofnodion ein hunain ar gyfer dadansoddi yn y dyfodol er mwyn mynd tuag at amlygu arfer gorau i lywio polisi cyhoeddus.

Anfonwch gopi digidol at y Comisiynydd Cam-drin Domestig hefyd os gwelwch yn dda
DHR@domesticabusecommissioner.independent.gov.uk

Ar ran y Panel QA, hoffwn ddiolch i chi, cadeirydd ac awdur yr adroddiad, a chydweithwyr eraill am y gwaith sylweddol yr ydych wedi'i wneud ar yr adolygiad hwn.

Yn gywir,

**Lynne Abrams**
Cadeirydd Panel Sicrwydd Ansawdd DHR y Swyddfa Gartref